## Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

# Cydlynydd ADY

**Amser llawn**
**Dyddiad cychwyn : Medi 2026**
**Manylion cyflog : Graddfa Arweinyddiaeth : L10-14**



# Croeso gan y Pennaeth

Yn gyntaf hoffwn ddiolch ichi am eich diddordeb yn swydd CADY Ysgol Aberconwy. Pwrpas y pecyn gwybodaeth hwn yw eich helpu i ddysgu mwy am ein hysgol ac i benderfynu ai dyma'r swydd iawn i chi.

Mae Ysgol Aberconwy yn ysgol sy'n rhoi dysgu a chyflawniad unigol wrth graidd popeth a wnawn. Rydym am i bob myfyriwr lwyddo; i gyflawni eu llawn botensial, paratoi at y dyfodol a datblygu'n bobl ifanc hyderus, meddylgar fel eu bod yn ein gadael yn barod am heriau byd cyffrous a chynyddol gystadleuol. Mae'r athroniaeth hon hefyd yn ymestyn i staff yr ysgol – rydym yn ceisio bod yn sefydliad dysgu sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad pob unigolyn sydd ynddo drwy hyfforddi, herio a chefnogi.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli mewn lleoliad ysblennydd ar foryd Conwy, ac yn ymfalchïo yn ei hamgylchedd modern, sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n i safon uchel ac yn cynnig adnoddau ardderchog. Mae ethos yr ysgol wedi'i seilio ar werthoedd traddodiadol, sef parch, cyfrifoldeb ac ysbryd cymunedol, ac mae myfyrwyr yn profi'r dechnoleg a'r dulliau addysgu diweddaraf yn yr ystafell ddosbarth.

Yma yn Ysgol Aberconwy mae gennym y disgwyliadau uchaf o'n holl fyfyrwyr ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae safonau academaidd yn bwysig i ni a disgwyliwn i bob disgybl gyflawni'r gorau. Mae gennym hefyd y disgwyliadau uchaf o'n myfyrwyr o ran ymddygiad, presenoldeb, prydlondeb a gwisg ysgol.

Mae system fugeiliol Ysgol Aberconwy yn eang ac yn arloesol. Mae gan bob grŵp blwyddyn Fentor Arweiniol llawn amser nad yw'n addysgu. Mae'r mentoriaid hyn yn gweithio o ganolfan fugeiliol ac ar gael drwy'r dydd i ymateb i bryderon disgyblion ac i ddarparu pwynt cyswllt uniongyrchol i rieni.

Mae gennym raglen allgyrsiol lwyddiannus iawn sy'n cynnwys ystod lawn o weithgareddau chwaraeon yng nghyfleusterau newydd ac arloesol yr ysgol, yn ogystal â chyngherddau cerddorol a chyflwyniadau drama. Mae gan yr ysgol ei chanolfan maes ei hun yn y bryniau uwchlaw Abergwyngregyn, gyda rhaglen eang o weithgareddau awyr agored.

Rydym hefyd yn ymfalchïo yn ein traddodiad a'n hetifeddiaeth Gymreig. Mae'r ysgol yn annog defnyddio'r iaith Gymraeg o fewn a thu allan i wersi, ac rydym yn datblygu ein gallu i ddarparu rhai pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg i'r sawl sy'n dymuno hynny.

Rydym yn ffodus iawn i gael tîm o athrawon a staff cynorthwyol ymroddedig a phroffesiynol iawn sy'n disgwyl y safonau uchaf gan eu disgyblion, ac ar yr un pryd mae systemau cadarn yr ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn dysgu mewn amgylchedd diogel a chyfeillgar lle mae athrawon yn addysgu a dysgwyr yn dysgu.

Mae Ysgol Aberconwy yn lle gwych i weithio. Mae'n canolbwyntio ar addysgu a dysgu ac yn ymroddedig i les ein dysgwyr. Mae gennym y disgwyliadau uchaf gan bawb sy'n gweithio yma ac felly rydym yn chwilio am y staff gorau i weithio gyda'n myfyrwyr. Gwyddom mai safon ein staff sy'n pennu safon ein hysgol. Os hoffech weld drosoch eich hun pam ein bod yn credu bod Ysgol Aberconwy yn lle gwych i weithio, mae croeso i chi gysylltu â ni i drefnu ymweliad.



# Ian Gerrard

# Gwybodaeth Ychwanegol am yr ysgol

Yn ystod eu hymweliad â’r ysgol ym mis Hydref 2025, nododd ESTYN:

- Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi.
- Mae llawer o athrawon yn sefydlu perthnasoedd gwaith pwrpasol gyda disgyblion.
- Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn ymgysylltu'n dda ac yn ymateb i ddisgwyliadau staff.
- Yng Nghyfnod Allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, mae'r cwricwlwm yn eang ac yn gytbwys.
- Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r ystod eang o deithiau ac ymweliadau, sy'n cyfrannu at eu cysylltiad cryf â'u hysgol, a'u parch tuag ati.
- Mae Ysgol Aberconwy yn gymuned ofalgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, ac yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu.
- Mae'r perthnasoedd rhwng staff a disgyblion yn gefnogol.
- Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda o amgylch yr ysgol.
- Mae disgyblion yn elwa o gyfleoedd ystyrlon i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o amrywiaeth.
- Mae amrywiaeth yn cael ei dathlu ledled yr ysgol.
- Mae’r disgyblion yn falch o fod yn rhan o gymuned eu hysgol.
- Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o glybiau allgyrsiol, sy'n cael eu mynychu'n dda.
- Mae'r ysgol yn darparu ystod o amgylcheddau cefnogol lle mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael gofal.
- Mae'r canolfannau adnoddau dysgu yn darparu amgylcheddau tawel a chefnogol sy'n hyrwyddo diogelwch a rheoleiddio emosiynol.
- Mae perthnasoedd cryf rhwng staff a disgyblion yn nodweddu'r amgylcheddau dysgu yn y canolfannau hyn.
- Mae staff bugeiliol yn ymateb yn briodol i bryderon, gan gynnwys achosion o fwlio.
- Mae disgyblion yn derbyn cyngor diduedd sy'n eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus
- Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth feddylgar gyda chynhwysiant a lles wrth wraidd ei weledigaeth.
- Mae cenhadaeth a gwerthoedd yr ysgol yn cael eu deall yn dda a'u croesawu gan ddisgyblion, staff a llywodraethwyr.
- Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar hunaniaeth leol ('Cynefin').
- Mae arweinwyr yn hyrwyddo manteision dysgu'r iaith Gymraeg yn dda.
- Mae gan lawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg.
- Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer datblygu arweinyddiaeth disgyblion.
- Mae cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb.

# Gwybodaeth am yr ardal leol

Tref ac Ardal Conwy

Mae Conwy yn dref sy'n gyfoeth o hanes, llawer ohono wedi'i ddiogelu gan y waliau ac adeiledd traddodiadol ei hadeiladau. Wrth ei chraidd mae'r castell cadarn o'r 13$^{eg}$ ganrif, y mae ei furiau'n amgáu'r dref ganoloesol hynod hon.

Wedi'i amgylchynu gan gefn gwlad hardd Cymru a than wyliadwriaeth mynyddoedd cadarn Eryri, mae'n lle hyfryd i ymweld ag ef neu i fyw ynddo. Mae'r Cei yn gartref i lawer o gyfleusterau ac yn lle arbennig o drawiadol i ymweld ag ef yn ystod misoedd cynnes yr haf. P'un a yw'n well gennych fwynhau lletygarwch bwytai lleol, mynd ar daith cwch gyffrous o amgylch yr ardal arfordirol neu fynd am dro ar y mynyddoedd cyfagos – mae'r cwbl yn bosibl yn nhref hanesyddol Conwy a'r cyffiniau.

Mae Conwy yn cynnig amrywiaeth o lefydd i fwyta ac yfed. Gellir dod o hyd i fwytai ciniawa coeth, tafarndai traddodiadol a chaffis clyd ledled y dref. Mae yno hefyd nifer o westai a llety gwely a brecwast – llawer ohonynt yn agos iawn at y castell ei hun. Gyda'i hymddangosiad traddodiadol a henaidd, gallech gredu bod y drefn hon yn anodd ei chyrraedd. Mae ychydig dros awr o yrru oddi wrth ddau faes awyr pwysig – Lerpwl a Manceinion – ac mae'n hawdd ei chyrraedd ar drên. Mae hefyd yn werth ymweld â gweddill Sir Conwy, sy'n cynnwys trefi arfordirol trawiadol.

Mae Llandudno wedi cadw ei swyn traddodiadol a dilys. Mae gan y dref wyliau glan môr Fictoraidd hon lawer i'w gynnig i ymwelwyr. Ewch am dro hamddenol ar hyd ei rhodfa, neu i gopa'r Gogarth Fawr lle cewch eich gwobrwyo â golygfeydd syfrdanol o'r mynyddoedd cyfagos a'r trefi arfordirol.

Fe welwch hefyd fod Conwy yn ymfalchïo yn ei diwylliant a'i hanes, ac yn aml yn cynnal nifer o ddigwyddiadau diwylliannol drwy gydol y flwyddyn. Bob blwyddyn, fe welwch gyfoeth o wyliau, orielau celf a marchnadoedd lleol, sy'n cael eu cynnal yn bennaf er mwyn cefnogi ac arddangos eu talent a'u cynnyrch lleol.

Os ydych chi'n chwilio am rywle i grwydro sy'n llawn antur ac sydd hefyd wedi llwyddo i gynnal ei gyfoeth hanesyddol o fewn ei waliau a'i adeiladau, mae Conwy yn cynnig hyn oll a mwy i'w hymwelwyr (a'i thrigolion).

(http://www.conwy.com/)







# Hysbyseb Swydd

**Yn eisiau o fis Medi 2026: CADY**

**Mae hon yn swydd barhaol, amser llawn**

**Cyflog: Graddfa Arweinyddiaeth : L10-14**

**Dyddiad Cau: Dydd Llun, Mehefin 1af**

Rydym yn awyddus i benodi Cydlynydd ADY brwdfrydig a llawn cymhelliant. Fel aelod o'r tîm arweinyddiaeth, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am greu a gweithredu strategaeth ysgol gyfan ar gyfer myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddant yn darparu arweiniad proffesiynol ym maes ADY er mwyn sicrhau safonau cyflawniad gwell i bob disgybl, ac yn sicrhau bod anghenion dysgu myfyrwyr yn cael eu diwallu yn y ffordd fwyaf effeithiol trwy gysylltu ag asiantaethau allanol, staff adrannol a chynorthwywyr addysgu.

Yn bennaf, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn rhannu gwerthoedd, gweledigaeth ac ethos Ysgol Aberconwy, lle rydym yn gweithio gyda'n gilydd i greu cymuned ddysgu gynhwysol, hapus a deinamig sy'n ysbrydoli, cefnogi a herio pawb. Byddwch yn rhannu ein gwerthoedd craidd sef gwytnwch, balchder, parch, positifrwydd ac ymrwymiad.

O ganlyniad, mae'r corff llywodraethu am benodi arweinydd deinamig sydd:

- Â hanes profedig o arfer rhagorol yn yr ystafell ddosbarth lle mae myfyrwyr yn cael eu herio, eu hysbrydoli a'u cefnogi i gyflawni;
- Yn meddu ar sgiliau arwain, trefnu a chyfathrebu da;
- Yn gallu creu gweledigaeth glir lle mae staff yn cael eu cymell a'u cefnogi i ddatblygu eu set sgiliau eu hunain;
- Yn cefnogi diwylliant o ddisgwyliadau uchel sy'n gyrru gwelliant Ysgol;
- Yn meddu ar sgiliau personol ac adeiladu tîm rhagorol;
- Wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraethwyr, rhieni, gofalwyr a rhanddeiliaid ehangach;
- Yn meddu ar agwedd gadarnhaol tuag at newid ac arloesedd a fydd yn datblygu ac yn ysbrydoli ein myfyrwyr;
- Yn ysbrydoli staff a disgyblion trwy ddiddordeb, anogaeth a chydnabyddiaeth o'u gwerth unigryw;
- Yn arddangos lefel uchel o ddeallusrwydd emosiynol.

Yn gyfnewid rydym yn cynnig:

- Ymrwymiad cryf i ddatblygiad proffesiynol;
- Ysgol â dyheadau uchel a chyfle gwirioneddol i wneud gwahaniaeth;
- Cyfle i helpu i lywio addysgu a dysgu a'n cwricwlwm amgen;
- Tîm ymroddedig a chefnogol o staff proffesiynol a llywodraethwyr;
- Cysylltiadau cryf ag ysgolion lleol eraill ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a chefnogaeth;
- Ysbryd cymunedol cryf;
- Lle bywiog a diddorol i weithio ynddo.

Mae'n gyfnod cyffrous i ymuno ag Ysgol Aberconwy, ysgol gyfun gymysg sy'n cynnwys mwy na 1100 o ddisgyblion 11 i 18 oed. Mae campws newydd, eang yr ysgol wedi'i leoli ar lannau prydferth Afon Conwy, yn nhref ganoloesol Conwy, sydd ar arfordir Gogledd Cymru ac yn agos iawn i Barc Cenedlaethol Eryri. Fel ysgol MCP mae safon ein hadnoddau a'n gwaith cynnal a chadw yn eithriadol o dda ac rydym wedi datblygu enw da iawn yn lleol am ansawdd ein gofal bugeiliol yn ogystal â'n llwyddiant academaidd. Bydd niferoedd yr ysgol wedi codi 30% dros y pum mlynedd diwethaf ym mis Medi, ac rydym wedi datblygu canolfannau adnoddau arbenigol i gefnogi plant â dyslecsia, awtistiaeth ac anghenion dysgu eraill.

# Disgrifiad Swydd

**SWYDD:** **Cydlynydd ADY**

**CYFLOG:** **L10-L14**

**DEILIAD SWYDD:**

**YN ATEBOL I:** **DB**

**PWRPAS Y SWYDD**

- Cyflawni rôl statudol Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) fel y nodir yn Neddf ADY 2018 a Chod ADY Cymru 2021, gan ddarparu arweinyddiaeth strategol a goruchwyliaeth weithredol o ADY ar draws yr ysgol.
- Creu, gweithredu a gwerthuso strategaeth ADY ysgol gyfan sy'n sicrhau darpariaeth gynhwysol o ansawdd uchel a chanlyniadau gwell i bob dysgwr ag ADY.
- Darparu canllawiau proffesiynol i staff ar ADY, addysgeg gynhwysol ac arfer sy'n canolbwyntio ar y person, gan sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau a safonau uchel o addysgu a dysgu.
- Sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu nodi a'u diwallu'n gywir drwy ddarpariaeth ansawdd uchel sy'n gyffredinol, wedi'i thargedu ac yn arbenigol, gan gynnwys paratoi, adolygu a diwygio Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau).
- Sicrhau bod myfyrwyr yn gwneud cynnydd cryf mewn llythrennedd, rhifedd ac ar draws Cwricwlwm Cymru, yn unol â disgwyliadau'r ysgol.
- Addysgu amserlen gryno sy'n briodol i rôl arweinyddiaeth uwch, gan fodelu arfer cynhwysol o ansawdd uchel.

**PRIF DDYLETSWYDDAU**

**Arweinyddiaeth Strategol ar ddarpariaeth ADY**

- Arwain y gwaith o ddatblygu, gweithredu ac adolygu polisi ac arferion ADY yr ysgol yn rheolaidd yn unol â Chod ADY Cymru
- Sicrhau bod arfer cynhwysol wedi'i ymgorffori'n gyson ar draws yr ysgol trwy addysgu addasol o ansawdd uchel
- Fel aelod o dîm arweinyddiaeth yr ysgol, gweithio gydag uwch arweinwyr eraill i gyfrannu at gynllunio gwelliant ysgol gyfan, gyda ffocws clir ar wella canlyniadau i ddisgyblion ag ADY.
- Cynnal goruchwyliaeth strategol o ddarpariaethau arbenigol yr ysgol ar gyfer dyslecsia ac awtistiaeth.

**Addysgu a Dysgu**

- Bod yn ymarferydd arweiniol ar gyfer addysgu gwersi ymyrraeth ddiddorol ac effeithiol sy'n cymell, yn ysbrydoli ac yn gwella cyrhaeddiad disgyblion.
- Modelu arfer ystafell ddosbarth gynhwysol o ansawdd uchel a chefnogi cydweithwyr i ddatblygu strategaethau sy’n gyffredinol ac wedi’u targedu’n effeithiol.
- Casglu, dehongli a defnyddio data asesu arbenigol i lywio darpariaeth, monitro cynnydd a gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer dysgwyr ag ADY.
- Nodi tanberfformiad ac arwain ymyriadau wedi'u targedu i fynd i'r afael ag anghenion a nodwyd.
- Arwain grwpiau cymorth yn ôl anghenion y disgyblion (e.e. Anawsterau Dysgu Penodol, Iaith a Lleferydd, cyfathrebu cymdeithasol, Llythrennedd, Rhifedd).
- Sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd da tuag at o leiaf eu hoedran darllen cronolegol neu fod ganddynt strategaeth glir i gyflawni hyn.
- Gweithio gyda disgyblion, arweinwyr pwnc ac athrawon i sicrhau disgwyliadau realistig ond uchelgeisiol ar gyfer ymddygiad a chyflawniad.
- Sicrhau bod pob Cynllun Datblygu Unigol yn gywir, yn canolbwyntio ar y person, wedi'i gynhyrchu ar y cyd â dysgwyr a theuluoedd, ac yn cydymffurfio â gofynion statudol.
- Cysylltu â chydlynwyr llythrennedd a rhifedd i sicrhau mynediad at Gwricwlwm Cymru a dilyniant i ddysgwyr ag ADY.
- Cynnal cyfathrebu rheolaidd a chynhyrchiol â rhieni/gofalwyr, gan sicrhau eu bod yn cymryd rhan lawn mewn prosesau ADY.
- Meithrin partneriaethau proffesiynol gydag arbenigwyr ac asiantaethau allanol i gefnogi asesu, cynllunio a darparu.
- Sicrhau bod cyfrifoldebau statudol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU), gan gynnwys paratoi, adolygu, diwygio a chyfranogiad amlasiantaeth, yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlenni gofynnol.
- Sicrhau bod Trefniadau Mynediad priodol yn cael eu nodi, bod cais yn cael ei wneud amdanynt a'u bod yn cael eu rhoi ar waith yn unol â gofynion y Cyd-gyngor Cymwysterau a gofynion statudol.

**Cydlynu Staff ac Adnoddau**

- Sicrhau bod yr holl staff yn deall ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol o dan y Ddeddf a'r Cod ADY.
- Arwain dysgu proffesiynol i staff, nodi anghenion hyfforddi a chydlynu HMS ar ADY, arfer cynhwysol a dulliau sy'n canolbwyntio ar y person.
- Darparu rheolaeth linell, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol i Gynorthwywyr Addysgu a staff cefnogi ADY eraill.
- Darparu adroddiadau rheolaidd i'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu ar ddarpariaeth ADY, cydymffurfiaeth a chanlyniadau dysgwyr.
- Cysylltu ag uwch arweinwyr ynghylch gofynion adnoddau, lleoli staff ac amserlennu i gefnogi darpariaeth ADY.
- Gweithio gyda Phenaethiaid Adrannau i sicrhau bod cymorth Cynorthwywyr Addysgu yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac wedi'i dargedu.
- Trefnu a chydlynu adnoddau dysgu ADY, gan gynnwys TGCh, gan sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol a'u datblygu yn unol ag anghenion dysgwyr.
- Cynnal adnoddau presennol ac archwilio cyfleoedd i fewnblannu dulliau ac offer newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

**Gweithio mewn Partneriaeth**

- Cysylltu'n effeithiol â rhieni/gofalwyr, gan rannu a darparu gwybodaeth yn ôl yr angen.
- Cysylltu'n effeithiol â phartneriaid cynradd i sicrhau bod ADY yn cael ei nodi'n gynnar a bod y cyfnod trosglwyddo esmwyth i Flwyddyn 7.
- Arwain cynllunio pontio mewn cyfnodau allweddol, gan gynnwys cydweithio â darparwyr AB a'r awdurdod lleol ar gyfer llwybrau ôl-16.
- Gweithio gyda thimau ADY awdurdodau lleol, gweithwyr iechyd proffesiynol ac asiantaethau eraill i gefnogi asesiadau, prosesau CDU ac adolygiadau amlasiantaeth.
- Cysylltu â'r Ganolfan, ABCD, Hafan a'r system fugeiliol i rannu gwybodaeth a chydlynu cefnogaeth.
- Adrodd bob tymor i'r Tîm Arweinyddiaeth ar gynnydd, lles a chanlyniadau dysgwyr ag ADY.
- Sicrhau bod prosesau ADY yn parchu dewisiadau iaith Gymraeg dysgwyr, yn unol â'r Cod ADY.

**Cefnogaeth i'r Ysgol**

- Cydymffurfio â pholisïau sy'n ymwneud â chynhwysiant, ymddygiad, diogelu, iechyd a diogelwch, cyfrinachedd a diogelu data.
- Cyfrannu at ethos a nodau'r ysgol, gan gynnwys Cwricwlwm Cymru a'r Cwricwlwm Cymreig.
- Cymryd rhan mewn rheoli perfformiad, hyfforddiant a dysgu proffesiynol yn ôl yr angen.
- Ymgysylltu'n rhagweithiol â rheoli perfformiad staff sy'n adrodd i ddeiliad y swydd.
- Defnyddio arbenigedd personol i gynghori a chefnogi cydweithwyr ar draws yr ysgol.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Diogelu Data a chynnal cyfrinachedd bob amser.
- Cynnal gwybodaeth drylwyr am bolisïau ADY statudol a sicrhau bod yr ysgol yn bodloni'r holl ofynion.
- Arwain monitro a gwerthuso darpariaeth ADY, gan gynnwys cynnydd, presenoldeb, gwaharddiadau a data lles, gan ddefnyddio canfyddiadau i lywio gwelliant yr ysgol.
- Cefnogi prosesau'r ysgol ar gyfer ymateb i bryderon neu anghytundebau ynghylch penderfyniadau ADY, yn unol â'r Cod ADY.

**HAWL I AMRYWIO**

Nid yw'r disgrifiad swydd hwn wedi'i fwriadu i fod yn rhestr gynhwysfawr o ddyletswyddau. Mae Ysgol Aberconwy yn cadw'r hawl, ar ôl ymgynghori'n briodol â chi, i amrywio eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau o fewn paramedrau eich gradd a'ch cymhwysedd galwedigaethol er mwyn ymateb i newidiadau yn anghenion yr ysgol.

**Llofnod y Gweithiwr:** ……………………………………. **Dyddiad:** ……………………………..

**Cymeradwywyd gan:** **Pennaeth :** ……………………… **Dyddiad:** …………………..

# Manyleb Person

| Ffactor | Gofynion | Tystiolaeth | Pwysigrwydd: H-Hanfodol D-Dymunol |
|---|---|---|---|
| **Cymhwyster** | O leiaf 5 TGAU A*-C gan gynnwys Saesneg a Mathemateg neu Gyfwerth | FfG/Gw | H |
| | SAC | FfG/Gw | H |
| | Hyfforddiant ADY/CADY penodol | FfG/Gw | D |
| | Cymhwyster ADP ar gyfer Trefniadau Mynediad neu barodrwydd i ymgymryd ag ef | FfG/Gw/C | D |
| **Gwybodaeth a Sgiliau** | Gweithio gyda phobl ifanc ag ADY mewn amgylchedd dysgu | FfG/C/Gw | H |
| | Gweithio gan ddefnyddio partneriaethau cydweithredol | FfG/Gw | H |
| | Gweithio gyda phobl ifanc i fynd i'r afael ag anawsterau llythrennedd/rhifedd | FfG/C/G | D |
| | Sgiliau cyfathrebu rhagorol mewn Saesneg ysgrifenedig a llafar. | FfG/C/G | H |
| | Rhuglder mewn Cymraeg ysgrifenedig a llafar | FfG/C/Gw | D |
| | Sgiliau rhifedd a llythrennedd da | FfG/Gw | H |
| | Gwybodaeth fanwl am Ddeddf ADY 2018, Cod ADY Cymru 2021, a chyfrifoldebau statudol Cydlynwyr ADY. | FfG/C/Gw | H |
| | Y gallu i gynllunio / cefnogi sesiynau ymyrraeth gydag amcanion clir i sicrhau dilyniant i bawb | FfG/C/G | H |
| | Profiad o nodi, monitro, gwerthuso a darparu strategaethau effeithiol ar gyfer disgyblion ag ADY | FfG/C/G | H |
| | Profiad o baratoi, adolygu neu gyfrannu at Gynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) | FfG/C/G | H |
| | Profiad o ddefnyddio arfer sy'n canolbwyntio ar y person gyda dysgwyr a theuluoedd | FfG/C/G | H |
| | Gallu i ddarparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer ADY ar draws lleoliad ysgol | FfG/C/G | H |
| | Profiad o gyfrannu at welliant ysgol gyfan, datblygu polisïau neu sicrhau ansawdd | FfG/C/G | H |
| | Gallu i ddadansoddi data i werthuso darpariaeth a llywio penderfyniadau strategol | FfG/C/G | H |
| | Profiad o weithio gyda thimau ADY awdurdodau lleol, gweithwyr iechyd proffesiynol neu asiantaethau allanol | FfG/C/G | H |
| | Profiad o arwain neu gydlynu pontio ar gyfer dysgwyr ag ADY | FfG/C/G | D |
| | Dealltwriaeth o ofynion y Cod ADY sy'n ymwneud â dewis iaith Gymraeg mewn prosesau ADY | FfG/C | H |
| | Profiad o arwain neu reoli staff, gan gynnwys cefnogi datblygiad proffesiynol | FfG/C/G | H |
| | Dealltwriaeth gref o gyfrifoldebau diogelu sy'n ymwneud â dysgwyr ag ADY | FfG/C/G | H |
| **Creadigrwydd a Dyfeisgarwch** | Cymhelliant personol rhagorol a brwdfrydedd dros gwblhau tasgau a neilltuwyd | FfG/C/G | H |
| | Y gallu i hunanwerthuso anghenion dysgu a cheisio cyfleoedd dysgu yn weithredol | FfG/C/G | H |
| | Y gallu i ymchwilio a threfnu gwybodaeth i'w chynnwys mewn dogfennau ac adroddiadau | FfG/C/G | H |
| | Y gallu i gynllunio camau gweithredu effeithiol ar gyfer myfyrwyr sydd mewn perygl o dangyflawni | FfG/C/G | H |
| | Dealltwriaeth o egwyddorion datblygiad plant a phrosesau dysgu ac, yn benodol, rhwystrau i ddysgu | FfG/C/G | H |

| Ffactor | Gofynion | Tystiolaeth | Pwysigrwydd: H-Hanfodol D-Dymunol |
|---|---|---|---|
| **Cysylltiadau a Pherthnasoedd** | Sgiliau rhyngbersonol rhagorol a'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol, yn ysgrifenedig ac ar lafar, gyda staff | C/G | H |
| | Y gallu i integreiddio i amgylchedd tîm a gweithio'n effeithiol o fewn iddo, gan ddeall rolau a chyfrifoldebau'r ysgol a'ch safle eich hun o fewn y rhain | C/G | H |
| | Y gallu i uniaethu'n dda â phlant | C/G | H |
| | Dealltwriaeth lawn o'r ystod o wasanaethau/darparwyr cymorth a'r gallu i weithio gydag asiantaethau o'r fath | FfG/G | H |
| **Penderfyniadau / Argymhellion** | Y gallu i wneud penderfyniadau'n annibynnol o fewn fframwaith amcanion y cytunwyd arno | C/G | H |
| | Y gallu i weithio dan bwysau i gwblhau tasgau mesuradwy a chadw at derfynau amser | FfG/C/G | H |
| | Sgiliau trefnu rhagorol gan gynnwys y gallu i reoli eich llwyth gwaith eich hun a chynllunio gweithgareddau | FfG/C/G | H |
| **Adnoddau** | Gallu i reoli adnoddau'n effeithlon | C/G | H |
| **Gofynion Corfforol** | Gallu i gyflawni dyletswyddau dyddiol o fewn ac o amgylch amgylchedd yr ysgol – gan gynnwys dyletswyddau egwyl ar iard yr ysgol ac yn ffreutur yr ysgol | FfG/C | H |

FfG: Ffurflen Gais    C: Cyfweliad    G: Geirda    Gw: Gwiriad

# Gweithdrefnau Diogelu

Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Gan gofio hyn, hoffem dynnu eich sylw at y materion canlynol:

1. Gwneir pob penodiad yn amodol ar y canlynol:
    a. Gwiriadau GDG manwl;
    b. Gwiriadau o statws proffesiynol (CGA; QTS ayyb.)
    c. Cadarnhad o gymwysterau proffesiynol;
    d. Derbyn geirdaon cryf (os na chawsant eu derbyn erbyn y cyfweliad);
    e. Cliriad meddygol

2. Rydym ond yn derbyn ceisiadau a gwblhawyd ar ffurflen gais Conwy gyda llythyr eglurhaol. Os gwelwch yn dda, peidiwch â gyrru CV neu dystebau agored. Ceir mwy o fanylion am gynnwys ceisiadau yn y pecyn hwn isod.

3. Sicrhewch fod y ffurflen gais wedi'i llenwi'n llawn. Yn benodol, rhaid i chi sicrhau bod hanes gwaith llawn yn cael ei ddarparu a bod unrhyw fylchau yn eich cyflogaeth yn cael eu hesbonio'n llawn.

4. Rhaid i'r canolwyr y cyfeirir atynt yn eich ffurflen gais gynnwys eich cyflogwr o'r tro diwethaf y buoch yn gweithio gyda phlant. Os oedd eich cyflogaeth ddiwethaf mewn ysgol, byddem yn disgwyl geirda gan y Pennaeth a/neu'r Dirprwy / Pennaeth Cynorthwyol

5. Wrth geisio geirda, byddwn yn gofyn am wybodaeth am eich addasrwydd i weithio gyda phlant.

6. Os ydych ar y rhestr fer, bydd unrhyw anghysonderau yn eich cais yn cael eu trafod gyda chi yn y cyfweliad.

*Rydym yn eich annog i roi sylw manwl i'r materion hyn fel na chaiff eich cais ei ddiystyru yn ddiangen.*

# Gweithdrefnau Gwneud Cais

Os hoffech gael eich ystyried ar gyfer y swydd hon, dylech lenwi'r ffurflen gais electronig, gan roi enwau a chyfeiriadau dau ganolwr.

Noder y dylai'r adran ar gyfer "Gwybodaeth ychwanegol i gefnogi eich cais" gynnwys y wybodaeth ganlynol:

a. Amlinelliad byr o'r hyn rydych wedi ei gyflawni yn eich swydd bresennol
b. Datganiad am pam rydych chi eisiau'r swydd hon.
c. Mynegiad o'r cryfderau a'r arbenigedd y gallech eu cynnig i'r ysgol.

Dylai pob pwynt fynd i'r afael â'r manylion yn y fanyleb person a phwyntiau eraill a wneir yn y pecyn gwybodaeth hwn.

Gofynnir yn garedig i ymgeiswyr beidio â chyflwyno CV yn lle ffurflen gais. Gellir atodi dalennau ychwanegol wrth y ffurflen gais os nad oes digon o le.

Dylid dychwelyd ceisiadau wedi'u cwblhau at Mr Ian Gerrard (Pennaeth) d/o Lynn Jones, i gyrraedd **erbyn canol dydd ddydd Llun Mehefin 1af fan bellaf.**

Noder y byddwn ond yn ystyried ceisiadau a gyflwynir ar ffurflen gais Conwy.

Cynhelir cyfweliadau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau **ddydd Llun Mehefin 1af** . Os na fyddwch wedi clywed gennym o fewn pythefnos i'r dyddiad hwn, yn anffodus mae'n rhaid i chi dybio bod eich cais wedi bod yn aflwyddiannus y tro hwn, ac os felly, hoffai'r Llywodraethwyr ddiolch i chi am eich amser a'ch diddordeb yn yr ysgol.

Sylwer ein bod yn hapus i drefnu ymweliadau anffurfiol ar gyfer darpar ymgeiswyr cyn i'r rhestr fer gael ei llunio, hefyd os ydych am gael trafodaeth anffurfiol am y swydd cyn gwneud cais, neu os oes angen rhagor o fanylion arnoch, cysylltwch â Lynn Jones, Cynorthwyydd Personol y Pennaeth.

**Ffôn: 01492 593243**
E-bost: lynn.jones@aberconwy.conwy.sch.uk